| SWYDD-DDISGRIFIAD | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Gweithiwr Cymdeithasol |
| **Portffolio** | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Yn atebol i'r** | Rheolwr Tîm |
| **Lleoliad** | Gyrfa Rowleys, Shotton |

**Pwrpas y Swydd**

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd ymdrin ag achosion yn annibynnol gan arddangos y gallu i reoli achosion cymhleth, asesu, cynllunio gofal, adolygu a rheoli risg yn briodol. Bydd hyn yn cynnwys gweithio dan bwysau gan reoli perthnasoedd cymhleth, lefelau risg uchel i ddefnyddwyr gwasanaeth, diogelu oedolion mewn perygl a gwneud dyfarniadau ynglŷn â'r angen am gamau gweithredu priodol.

**Prif Gyfrifoldebau**

1. Bydd deiliad y swydd yn cynnal ystod o asesiadau diogelu a gofal yn y gymuned, yn unol â gofynion statudol perthnasol, gan nodi risgiau, canlyniadau a datrysiadau creadigol.
2. Datblygu cynlluniau gofal a chymorth a'u rhoi ar waith, sydd â chyswllt amlwg ag anghenion cleientiaid a nodi unrhyw ganlyniadau cymwys ac anghenion nad ydynt wedi'u diwallu.
3. Bydd deiliad y swydd yn cyd-gynhyrchu pecynnau gofal gwerth am arian; comisiynu ystod o wasanaethau a luniwyd i leihau risg a gwella safon bywydau defnyddwyr y gwasanaeth a'u gofalwyr.
4. Bydd deiliad y swydd yn gweithio gydag unigolion a'u teuluoedd, gofalwyr a chymunedau i'w helpu i wneud dewisiadau a phenderfyniadau deallus, gan eu galluogi i egluro a mynegi eu canlyniadau a llunio datrysiadau ar y cyd.
5. Rheoli llwyth achosion dyranedig; monitro, adolygu a gwerthuso newidiadau yn anghenion y cleient yn rheolaidd a sicrhau bod pob gwasanaeth yn cyfrannu'n effeithiol at y cynllun gofal a chymorth a sicrhau bod adnoddau'n dal i gael eu defnyddio'n effeithiol.
6. Bydd deiliad y swydd yn datblygu a chynnal perthnasoedd effeithiol, gan sicrhau bod budd-ddeiliaid allweddol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd; yn rhoi cyngor a chymorth, hyrwyddo annibyniaeth ac ymyrraeth gynnar yn ôl yr angen; a helpu i ddatrys gwrthdaro lle bo hynny'n briodol.
7. Bydd deiliad y swydd yn cysylltu â chydweithwyr yn eu hadran eu hunain ac adrannau eraill ac asiantaethau allanol er mwyn casglu gwybodaeth berthnasol i'r asesiadau a gweithgareddau cynllunio gofal; bod yn eiriolwr ar ran cleientiaid a gofalwyr yn yr awdurdod lleol a gydag asiantaethau iechyd a sefydliadau gwirfoddol.
8. Bydd deiliad y swydd yn diweddaru nodiadau achosion a chofnodion eraill, ysgrifennu adroddiadau yn ôl yr angen; rhoi tystiolaeth yn y llys mewn perthynas â gofal ac achosion eraill yn ôl y gofyn.
9. Efallai y bydd gofyn goruchwylio myfyrwyr gwaith cymdeithasol ar leoliad, hyfforddeion, staff cymorth neu wirfoddolwyr.
10. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r swydd gan gynnwys cynrychioli rheolwyr mewn cyfarfodydd a grwpiau defnyddwyr.
11. Cydymffurfio â holl bolisïau'r Cyngor e.e. Polisïau a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch, Diogelu Data, Polisïau Cydraddoldeb.
12. Parhau i ymgymryd â hyfforddiant ar ôl cymhwyso megis credydau Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus a fydd yn ateb gofynion Cyngor Gofal Cymru, gan gynnwys gwobrau ymarferwyr profiadol,

| |
|---|
| megis Asesydd Ymarfer, Asesydd Lles Gorau, Asesydd Colli Rhyddid ac ati. Ar ôl cwblhau'r rhaglenni cymwys hyn bydd deiliad y swydd yn rhoi'r ymarfer ar waith. |
| |

| **Goruchwylio/Rheoli Pobl** |
|---|
| Dim |
| **Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol h.y. y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** |
| Oes |
| **Amodau Gwaith Arbennig** |
| Dim |

| **Manylion am yr Unigolyn** | | |
|---|---|---|
| ***Mae'r manylion am yr unigolyn yn nodi'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni'r swydd, ac fe'u defnyddir wrth lunio rhestr fer yn ystod y cam cyflwyno cais a'r cam cyfweld. Mae'n bwysig felly eich bod yn dangos ar eich ffurflen gais sut yr ydych chi'n bodloni pob un o'r gofynion hanfodol.*** | | |
| **Cymwysterau Academaidd / Proffesiynol** | **Hanfodol / Dymunol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
| Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol (CQSW, CSS, DipSW) | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| Ymrwymiad i hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | |
| Cwbl gyfarwydd â deddfwriaeth / rheoliadau a chanllawiau Gofal Cymdeithasol perthnasol. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Dealltwriaeth o'r egwyddorion a'r cyfrifoldebau sy'n deillio o weithrediad deddfwriaeth berthnasol megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gofal Iechyd Parhaus y GIG, Deddf Galluedd Meddyliol 2005. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu amlwg i gynnal asesiadau o oedolion ag anabledd corfforol a'u teuluoedd / gofalwyr, ar y cyd â gweithwyr proffesiynol eraill, yn ôl yr angen. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu llunio datrysiadau creadigol ac arloesol ar y cyd, monitro a gwerthuso cynlluniau gofal a chymorth. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Profiad o weithio mewn amgylchedd amlasiantaeth a gweithio gydag asiantaethau partner megis Iechyd. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Sgiliau** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Sgiliau cyfathrebu ac ymgysylltu ardderchog, yn ysgrifenedig ac ar lafar, gyda staff o fewn y sefydliad, asiantaethau partner a'r cyhoedd. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu cyflwyno adroddiadau a syniadau yn gryno, gwneud cyflwyniadau i wahanol gynulleidfaoedd ar ystod o bynciau i amrywiaeth o fudd-ddeiliaid megis yr awdurdodau lleol, iechyd, sector gwirfoddol. | Dymunol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu cynnal asesiadau sy'n seiliedig ar gryfderau a sgyrsiau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu blaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun i gwrdd â therfynau amser yr adran. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Lefel dda o gymhwysedd wrth ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu rheoli gwrthdaro a thrafod / sgiliau datrys problemau. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Dangos dull hyblyg o weithio a'r gallu i gymryd rhan mewn amrywiaeth o dasgau. Bod â dull dadansoddol o ddatrys problemau, a gallu gwneud gwelliannau ac argymhellion fel bo'n briodol. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu arwain, annog, a chymryd rhan mewn amrywiaeth o grwpiau. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Gallu gweithio ar y cyd ag Iechyd ac asiantaethau partner / cydweithwyr eraill. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Cymwyseddau Ymddygiad Craidd Cyngor Sir y Fflint** | **Hanfodol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
| **Y Cwsmer yn Gyntaf:**<br>Deall ein cwsmeriaid (mewnol ac allanol) a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i fodloni eu disgwyliadau a rhagori arnynt. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Gweithio'n Ddoethach:**<br>Bod yn glir o ran yr hyn y mae disgwyl i chi ei gyflawni yn eich swydd a meddu ar y sgiliau, y cymhelliant, y brwdfrydedd a'r ymrwymiad i weithio'n effeithiol. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Cydweithio / Gweithio mewn Partneriaeth:**<br>Meithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol er mwyn darparu gwasanaethau gwell i'n cwsmeriaid a'n gweithwyr. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Cyfathrebu:**<br>Sicrhau ein bod yn deall ein gilydd, yn parchu ein gilydd ac yn mynegi a rhannu syniadau a gwybodaeth yn glir. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Newid:**<br>Addasu i newid a chyflwyno gwell ffyrdd o wneud pethau, drwy greu syniadau a chwilio am y ffordd orau o ddarparu ein gwasanaeth. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Arwain a Rheoli:**<br>Arwain a chymell eich hun ac eraill i wella perfformiad yn barhaus. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |